

# Pytiau o Lwyddiant

Gorffennaf 2024



Consortium Canolbarth y De  
Central South Consortium

Gwasanaeth Addysg ar y Cyd  
Joint Education Service

**Dathliad o newyddion da a straeon  
llwyddiant o ysgolion ar draws rhanbarth  
Consortium Canolbarth y De**



AR DRAWS Y  
RHANBARTH



## Dysgu Proffesiynol Rhanbarthol ANG

Unwaith eto, derbyniodd rhaglen sefydlu 5 diwrnod CCD ar gyfer Athrawon Newydd Gymhwysu (ANG) 'Aspire' adborth cadarnhaol rhagorol gan gyfranogwyr. Cafodd y rhaglen hon, sydd ar gael i bob ANG yn y rhanbarth, gan gynnwys y rhai ar gyflenwi tymor byr, ei chyd-adeiladu a'i hwyluso gan diwtoriaid hyfforddedig a phrofiadol iawn yn ein hysgolion sy'n lletya ledled y rhanbarth. Mae'r rhaglen yn cynnwys dysgu proffesiynol o ansawdd uchel; cyfuno trafodaeth, ymchwil, rhannu syniadau, arsylwi, teithiau dysgu a myfyrio.

Ysgolion sy'n lletya Anelu:

### Pen-y-bont

- Coleg Cymunedol Y Dderwen
- Pencoed Primary School
- Ysgol Gynradd Gymraeg Calon y Cymoedd
- Oldcastle Primary School

### Caerdydd

- Cardiff High School
- Fitzalan High School
- Herbert Thompson Primary School
- Whitchurch High School
- Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf

### RhCT

- Hawthorn High School
- Miskin Primary School
- Tonyrefail Community School
- Treorchy Comprehensive school
- Y Pant Comprehensive School
- Ysgol Nantgwyn

### Merthyr Tudful

- Troedyrhiw Community Primary School

### Bro Morgannwg

- Cadoxton Primary School
- Stanwell School
- Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg
- Ysgol Y Deri
- Ysgol y Ddraig

Ymgysylltodd **382 o ANG** gyda'r rhaglen y flwyddyn academaidd hon.

Nododd **93-99%** o'r gwerthusiadau ar draws y rhaglen bum niwrnod fod y sesiynau wedi gwella eu gwybodaeth, eu bod yn berthnasol ac yn addas i'w hanghenion.



Ymhlith y sylwadau roedd:

*"Y rhaglen ANG Anelu fu'r peth gorau am fy mlwyddyn ANG."*

*"Roedd yn ddiwrnod a gafodd ei drefnu'n dda. Roedd popeth wedi'i deilwra i arfer a gallaf weld y manteision y bydd yn ei gael ar fy asesu ffurfiannol a chrynodol."*

*"Diolch am heddiw, mae'n dda cwrdd ag ANG eraill a rhannu profiadau."*

*"Cafwyd croeso cynnes gan yr ysgol a chroesawodd y staff ni i'w hystafelloedd dosbarth a gwerthfawrogwyd hyn yn fawr iawn."*

*"Rydw i wedi mwynhau'r diwrnod hwn. Mae siarad ag ANG eraill yn yr un sefyllfa â mi yn ddefnyddiol iawn wrth gael gwell dealltwriaeth o addysgu a sut y gallaf wella fy arfer addysgu."*

*"Gwnaeth [Tiwtor] y profiad gymaint yn well. Roeddwn i'n nerfus iawn cyn mynychu ond roedd [tiwtor] yn gwneud i ni deimlo bod croeso mawr i ni. Roedd yn ein galluogi i rannu yn hyderus drwy gydol y sesiwn."*

## **Siarter laith / Siarter laith Cymraeg Campus**



Dros yr hanner tymor diwethaf, mae CCD wedi cael y fraint o ddyfarnu gwobrau Siarter laith a Siarter laith Cymraeg Campus i lawer o ysgolion ar draws y rhanbarth. Mae ysgolion wedi gweithio'n galed i ysbrydoli plant a phobl ifainc i ddefnyddio'r Gymraeg y tu mewn a'r tu allan i'r ystafell ddosbarth ac i fod yn falch o'u hunaniaeth Gymreig. Mae'r ysgolion isod wedi ennill gwobrau yn ystod yr hanner tymor diwethaf:

### **Pen-y-bont**

- **Afon y Felin Primary School** – Gwobr Aur Award (2il ddilysiad)
- **Ysgol Gymraeg Bro Ogwr** – Gwobr Aur
- **Cynffig Comprehensive School** – Gwobr Aur

- **Betws Primary School** – Gwobr Arian
- **Coety Primary School** – Gwobr Arian
- **Cefn Cribwr Primary School** – Gwobr Arian
- **Nantyffyllon Primary School** – Gwobr Arian
- **Pen-Y-Bont Primary School** – Gwobr Arian
- **Tondu Primary School** – Gwobr Efydd
- **Pencoeed Comprehensive School** – Gwobr Efydd
- **The Bridge Alternative PRU** – Gwobr Efydd

### **Carerdydd**

- **St Bernadette's Primary School** – Gwobr Aur
- **Whitchurch Primary School** – Gwobr Aur
- **Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd** – Gwobr Aur
- **Ysgol Treganna** – Gwobr Aur
- **Ysgol Y Berllan Deg** – Gwobr Aur
- **Ysgol Hamadryad** – Gwobr Aur
- **Creigiau Primary School (Adran Saesneg)** – Gwobr Aur
- **Coryton Primary School** – Gwobr Arian
- **Rhydypenau Primary School** – Gwobr Arian
- **Trowbridge Primary School** – Gwobr Arian
- **Tongwynlais Primary School** – Gwobr Arian
- **Tŷ Gwyn Special School** – Gwobr Arian
- **Lakeside Primary School** – Gwobr Arian
- **Ysgol Gymraeg Pwll Coch** – Gwobr Arian
- **Stacey Primary School** – Gwobr Arian
- **The Court Special School** – Gwobr Arian
- **Lakeside Primary School** – Gwobr Arian
- **Pontprennau Primary School** – Gwobr Efydd

## Merthyr Tudful


- **Ysgol Rhyd y Grug** – Gwobr Aur
- **Caedraw Primary School** – Gwobr Arian
- **Edwardsville Primary School** – Gwobr Arian
- **Cyfarthfa High School** – Gwobr Arian
- **Pantysgallog Primary School** – Gwobr Arian
- **Trelewis Primary School** – Gwobr Efydd

## Rhondda Cynon Taf

- **Ysgol Gymraeg Evan James** – Gwobr Aur
- **Ysgol Llanhari (Adran Gynradd)** – Gwobr Aur
- **Abernant County Primary School** – Gwobr Arian
- **Brynnau Primary School** – Gwobr Arian
- **Ton Pentre Infants School** – Gwobr Arian
- **Cwmbach Church in Wales Primary School** – Gwobr Arian
- **Tonysguboriau Primary School** – Gwobr Arian
- **Maes y Coed Primary School** – Gwobr Arian
- **Ffynnon Taf Primary School** – Gwobr Arian
- **Capcoch Primary School** – Gwobr Arian
- **Llantrisant Primary School** – Gwobr Arian
- **Bodringallt Primary School** – Gwobr Efydd
- **Tref-y-Rhyg Primary School** – Gwobr Efydd
- **Tŷ Gwyn Education Centre** – Gwobr Efydd
- **Glenboi Primary School** – Gwobr Efydd

## Bro Morgannwg

- **St Cyres Comprehensive School** – Gwobr Arian
- **St Brides Major Church in Wales Primary School** – Gwobr Arian
- **Evenlode Primary School** – Gwobr Arian
- **Pendoylan C/W Primary School** – Gwobr Efydd
- **Peterston-Super-Ely Primary School** – Gwobr Efydd
- **Ysgol y Deri** – Gwobr Efydd



## Heronsbridge School

Mae **Ysgol Heronsbridge** yn ysgol arbennig breswyl a gynhelir gan awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'r ysgol yn darparu addysg i ddisgyblion 3 i 19 oed. Mae gan yr ysgol weledigaeth sefydledig, 'Rydyn ni'n rhoi adenydd iddyn nhw, bydd ein Crehyrod yn hedfan', a gwerthoedd cryf, sy'n cael eu rhannu gan yr holl staff a rhanddeiliaid. Mae'r rhain yn gosod y disgyblion yn ganolog wrth wraidd popeth sy'n digwydd yn yr ysgol. Ers 2016 bu'r ysgol yn un o arloeswyr y cwricwlwm ac mae wedi treialu a mireinio ei thaith diwygio'r cwricwlwm. Dechreuodd y cyfan wrth addasu'r pedwar diben i'r hyn maent yn edrych fel ar gyfer y disgyblion, gan sicrhau eu bod wrth wraidd popeth y mae'r ysgol yn ei wneud.

Dechreuodd cynllun cwricwlwm yr ysgol drwy greu grŵp ymholi oedd yn gofyn y cwestiwn "Sut ydyn ni'n gwreiddio'r 4 diben yn Heronsbridge?" Crëwyd Crehyrod fel afatarau, gan ymgorffori'r pedwar diben a'r weledigaeth ar gyfer y cwricwlwm. Datblygodd yr ysgol gylch pedair blynedd o themâu oedd â digon o gyfleoedd a chyffro ar gyfer yr ysgol gyfan (4-19). Fe wnaeth gweithdai cwricwlwm disgyblion fireinio'r cynllun thema hwn yn ofalus, gyda'r disgyblion yn dweud beth fydden nhw'n hoffi ei ddysgu. Roedd mapio cynnydd o fewn y themâu yn sicrhau bod pob pwnc yn cynnal lefelau uchel o gymhelliant ac ymgysylltiad dysgwyr wrth iddynt symud drwy'r ysgol.

Gan weithio ar draws y pedwar maes, mae grwpiau athrawon MDPH yn cyfarfod yn dymhorol i lunio cyngor themâu ar gyfer yr ysgol gyfan. Mae dysgwyr yn elwa o fodel cynnydd profiad, sgiliau a gwybodaeth sy'n cydnabod bod cyfoeth y profiad dysgu yn hanfodol ar gyfer ymgysylltu â dysgu.

Mae cynnydd disgyblion unigol yn cael

ei fapio trwy deithiau dysgu, sy'n deillio o asesiad crynodol a chyfarfodydd cynllunio sy'n canolbwyntio ar y person.

Drwy olrhain, mae'r ysgol yn gallu dangos bod disgyblion yn parhau i wneud cynnydd cryf, nid yn unig o'u manau cychwyn, ond hefyd o'u cymharu â normau proffiliau dysgu hanesyddol. Mae'r ysgol yn defnyddio strategaeth farcio ac asesu dysgu 'Glas Gwych ac Oren Ar Daith', sy'n cefnogi disgyblion i ddod yn ymwybodol o'u cynnydd. Lle bo modd, mae rhai disgyblion yn hunanasesu ac ychydig yn asesu eu cyfoedion. Mae'r disgyblion yn hapus, yn edrych yn gadarnhaol ar ddysgu ac yn barod ar gyfer eu camau nesaf mewn bywyd.

## Ysgol Iau Llangewydd

Ym mis Mawrth 2024, cyflwynodd tri grŵp o blant Blwyddyn 5 a 6 o Ysgol Iau Llangewydd gais i gystadleuaeth 'Gêm o Godau' Technocamps. Roedd y tri thîm yn ddigon ffodus i gael eu gemau ar y rhestr fer ar gyfer y rownd derfynol ym Mhrifysgol Caerdydd ym mis Ebrill 2024.

Roedd y disgyblion wrth eu boddau yn mynychu'r rownd derfynol ac roeddent yn gyffrous am ymweld ag adeilad cyfrifiadureg y brifysgol. Tra yn y rownd derfynol, cymerodd y disgyblion ran mewn ystod o weithgareddau gan gynnwys gweithgareddau Micro:Bit a gweithgareddau meddwl cyfrifiadurol dadfygio. Cafodd y disgyblion gyfle hefyd i drafod a phrofi gemau grwpiau eraill.

Siaradodd pob un o'r disgyblion yn glir gyda'r beirniaid am eu gemau, gan gynrychioli'r ysgol yn dda a gwneud y staff oedd gyda nhw yn falch iawn. Dyfarnwyd bag o eitemau i bob un o'r disgyblion am gyrraedd y rownd derfynol ond enillodd un o'r grwpiau o'r ysgol wobwr ychwanegol hefyd am ennill y gystadleuaeth 'Gwaith Tim'. Diwrnod llwyddiannus trwyddi draw i Ysgol Iau Llangewydd!



Mae'r grŵp o 30 o ofalwyr ifainc hyn yn cwrdd bob pythefnos ac mae nifer y gofalwyr ifainc sydd wedi ymuno â'r grŵp wedi cynyddu ers y pandemig. Mae'r cyfarfodydd wedi'u cynllunio i ddarparu amgylchedd diogel fel y gall dysgwyr siarad yn rhydd ag eraill sy'n deall, am eu profiadau a'r heriau y maent yn eu hwynebu bob dydd.

Mae gofalwyr ifainc yn cyflawni eu dyletswyddau gofalu y tu allan i'r ysgol yn ddyddiol ac yn aml yn colli allan ar gyfleoedd a gweithgareddau y mae pobl ifainc eraill yn eu cymryd yn ganiataol. Mae'r ysgol yn cydnabod y ffaith bod gofalwyr ifainc eisoes yn debygol o fod â chyrhaeddiad addysgol sylweddol is na'u cyfoedion, felly mae cefnogaeth ar gael i'r gofalwyr ifainc hynny sydd angen cefnogaeth academiaidd ychwanegol.



*I enjoy Young Carers as I can interact with people my age in a similar situation as well as support and fun activities.*



*It helps me because I can have a break from work and everything and doing different fun activities*

### Ysgol Gyfun Pencoed



Mae **Ysgol Gyfun Pencoed** yn falch iawn o fod yr ysgol uwchradd gyntaf ym Mhen-y-bont ar Ogwr i ennill y Wobr Gofalwyr Ifainc Cyfeillgar+. Mae'r wobwr yn dysteb i'r staff dan arweiniad Mrs Bishop a Gofalwyr Ifainc Pencoed.

Fel ysgol, mae'r ffocws ar ofalwyr ifainc yn hollbwysig fel rhan o ddull ysgol gyfan. Mae Hwb Lles yr ysgol yn rhan annatod o'r dull ysgol o gefnogi gofalwyr ifainc ac mae'n dysteb i'r bartneriaeth sy'n bodoli rhwng y grŵp gofalwyr ifainc a'r staff. Er bod staff allweddol yn cefnogi'r grŵp, mae'r wobwr yn sicr yn perthyn i'r Grŵp Gofalwyr Ifainc eu hunain.

*Being a Young Carer feels so special and all the adults there are so supporting and there are very nice and caring people*

## Ysgol Gynradd Gatholig St Robert's

Da iawn i ddisgyblion Blwyddyn 5 **Ysgol Gynradd Gatholig St Robert's** sydd wedi bod yn rhan o gyfres o weithdai adrodd straeon gyda disgyblion leithoedd Rhyngwladol o Brifysgol Abertawe. Trwy bum sesiwn amlieithog a ddefnyddiodd adrodd stori fel symbyliad i ddysgu am wahanol ieithoedd a diwylliannau, ymgysylltodd disgyblion â dysgu Ffrangeg, Sbaeneg, a Mandarin, gan gynnal gweithgareddau fel "Edrych yr un fath, swnio'r un fath?" neu "Cyfateb Cytrasau", a helpodd nhw i sylwi ar y gwahaniaethau a'r tebygrwydd rhwng yr ieithoedd. Gan rannu uchafbwyntiau eu cydweithrediad â'r prosiect adrodd straeon ar gyfryngau cymdeithasol, dywedodd y disgyblion eu bod "wedi dysgu llawer iawn am ieithoedd a [...] "Fe wnes i fwynhau dysgu geiriau newydd yn Sbaeneg". Gwnaeth agwedd gadarnhaol y disgyblion argraff dda iawn ar Dr Giovana Donzelli o Brifysgol Abertawe: "Roedd yn ddiddorol gweld pa mor barod oedd y plant i ymgysylltu a sut y gallent sgwrsio mewn Mandarin, er enghraifft, erbyn diwedd yr ymyriad." Mae'r ysgol eisoes yn gwneud cynnydd gwych wrth addysgu Ffrangeg yn ystod y cwricwlwm, ac maent yn croesawu pob cyfle i ddatblygu cymhwysedd amlieithog eu dysgwyr mewn ffyrdd newydd a chreadigol, gan eu paratoi i fod yn ddinasyddion Cymru ddwyieithog mewn byd amlieithog. Bravo!



## Ysgol Gynradd West Park

Yn **Ysgol Gynradd West Park**, mae llawer iawn o waith caled ac ymroddiad yn cael ei wneud i roi cwricwlwm cyfoethog ac amrywiol i'r disgyblion sy'n llawn cyfleoedd i ddod yn ddysgwyr gydol oes uchelgeisiol a galluog gyda gwerthoedd cryf ac ymdeimlad o empathi a pharch tuag at ei gilydd ac at y byd rydym yn byw ynddo. Wrth ddatblygu cwricwlwm yr ysgol, roedd cymuned yr ysgol yn awyddus i sicrhau bod y cwricwlwm yn adlewyrchu ethos a gwerthoedd cryf yr ysgol o ran gweithredu ar yr hinsawdd a chynaliadwyedd. Mae athrawon yn ymgorffori amrywiaeth o weithgareddau dysgu i gefnogi dealltwriaeth y disgyblion o'r materion byd-eang hyn ac yn darparu cyfleoedd i roi dysgu ar waith. Mae rhai o'r cyfleoedd yn cynnwys Siop Eco'r Ddeilen Werdd, cwpwrdd Dillad Cynaliadwy o ddillad i deuluoedd eu cyrchu, gweithio tuag at statws Baner Platinwm Eco-Sgolion, gardd gymunedol, olrhain plastig ar hyd yr arfordir lleol, glanhau traethau, dylunio a gwneud tyrbinau gwynt, a chymaint mwy. Cynhyrchodd disgyblion y Pwyllgor Heddwch gyda'u harweinydd, Mrs Mainwaring, gyflwyniad Pŵerbwynt i ddangos rhai o'r ffyrdd y mae'r ysgol yn datblygu dealltwriaeth tuag at y genhadaeth hon ar draws yr ysgol gyfan. Danfonwyd y cyflwyniad i gystadleuaeth a gynhaliwyd gan y Ganolfan Ysgolion Heddwch ar gyfer Materion Rhyngwladol.

Roedd yr ysgol wrth ei bodd ac yn falch iawn o gyhoeddi mai Ysgol Gynradd West Park yw enillwyr balch Gwobr Arwr Gweithredu Hinsawdd Cymru. Roedd y Pwyllgor Heddwch wrth ei fodd yn teithio i Langollen yr wythnos diwethaf i dderbyn y wobr ar brif lwyfan yr Eisteddfod ar ran Ysgol Gynradd West Park. Mae'r ysgol yn werthfawrogi iawn o holl gefnogaeth y staff, y gymuned a'r llywodraethwyr ac mae disgyblion West Park yn edrych ymlaen at barhau i adeiladu ar y sylfeini cadarn ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.



## Ysgol Gymraeg Bro Ogwr

Trwy adborth llais disgyblion ym Mlwyddyn 2, nododd athrawon yn **Ysgol Gymraeg Bro Ogwr** ddi-ddordeb eu dysgwyr mewn defnyddio Microbits i gefnogi adrodd straeon.

Gan ddefnyddio'r dull Siarad ar gyfer Ysgrifennu o Fapio Stori, roedd disgyblion wedi dysgu'r stori 'We're Going on a Bear Hunt' gan Michael Rosen. Penderfynodd y plant a'u hathrawon ddefnyddio Microbits i gefnogi eu hatgofion o'r stori ac i arddangos eu dealltwriaeth.

I ddechrau, defnyddiodd y plant Microbits papur wedi eu printio i 'liwio' eu cod ac i gynllunio sut y byddai'r stori'n edrych ar y ddyfais. Fe wnaethant feddwl am olygfeydd allweddol o'r stori yr oeddent am eu harddangos ar y Microbit. Roedd y cynllunio papur hwn yn galluogi disgyblion i 'ddadfygio' eu cod wrth iddo ddatblygu, a gallent adnabod a chywiro problemau yn gyflym a dod o hyd i atebion.

Ar ôl iddynt gwblhau'r cynllun papur hwn, symudodd y plant ymlaen i ychwanegu eu delweddau dewisol at y Microbits. Creodd disgyblion rhwng 1 a 14 delwedd i'w cadw a'u harddangos ar y Microbit. Roedd y delweddau hyn yn amrywio o ran cymhlethdod ac yn darlunio nodweddion allweddol o'r stori fel y glaswellt a'r dŵr.

Gan ddefnyddio'r Microbits a'r cod yr oeddent wedi'i ysgrifennu, roedd disgyblion yn gallu perfformio ar gyfer disgyblion eraill, gan ddangos eu gallu storiol a'u sgiliau codio. Roedd y profiad cyfoethog hwn yn rhoi rheswm perthnasol a defnyddiol dros ddatblygu a chymhwyso sgiliau meddwl cyfrifiadurol wrth hyrwyddo llafaredd ac adrodd straeon.



YSGOLION CAERDYDD



## Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd

Ar Ebrill 15fed 2024, roedd **Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd** yn falch iawn o gynnal “Prynhawn Agored Darpariaethau” cyntaf Gorllewin Caerdydd. Croesawodd yr ysgol asiantaethau allanol a phartneriaid cymunedol sy’n gweithio’n agos gyda’n darpariaeth dysgwyr a’n staff i gwrdd â rhieni a dysgwyr, gan dynnu sylw at y cynnydd a’r ymgysylltiad gwych yr ydym wedi’i weld ers mis Medi 2023. Roedd dysgwyr o’r darpariaethau ymddygiad a meithrin yn gallu dangos eu llyfrau gwaith i’w rhieni/gofalwyr, cwrdd â’r staff maent yn ymddiried ynddynt a chael coffi a bisgedi.

Mae’r ysgol yn ddiolchgar iawn i’r asiantaethau canlynol a fynychodd; Prosiect Baxter, Sefydliad Dinas Caerdydd, Gweithredu dros Blant, Coleg Caerdydd a’r Fro, Tîm Iechyd a Lles Emosiynol (ALI), Mentor Ieuenctid, Gyrfa Cymru a Phorth Teulu, a oedd i gyd yn gallu rhoi arweiniad a chefnogaeth i rieni. Digwyddiad gwych, llawn bwrlwm a sgwrsio, lle adeiladwyd cysylltiadau cadarnhaol gyda’r gymuned leol. Mae’r ysgol yn diolch i’r rhieni a’r dysgwyr a oedd yn gallu mynychu a’r staff sy’n gweithio’n ddiflino i gefnogi dysgwyr a theuluoedd yr ysgol ac yn edrych ymlaen at ein Prynhawn Agored Darpariaethau nesaf ym mis Gorffennaf 2024.

## Ysgol Gynradd Llysaen

Llongyfarchiadau i **Ysgol Gynradd Llysaen** am gael eu cydnabod gan Estyn am ddarpariaeth hynod effeithiol ar gyfer datblygu sgiliau Cymraeg disgyblion a’u gwybodaeth o hanes, diwylliant a phobl Cymru (cynefin).

Ar ôl gweithio gyda Llysaen ar ddatblygu sawl agwedd ar y Gymraeg, mae CCD yn falch iawn bod Estyn wedi cydnabod bod staff yn fodolau rôl da iawn wrth ddefnyddio’r iaith yn rheolaidd a bod cwricwlwm blaengar a gynlluniwyd yn dda yn sicrhau bod disgyblion yn gwella eu sgiliau Cymraeg yn systematig ac yn gyflym, ac o ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf iawn.

## Ysgol Y Wern, Ysgol Mynydd Bychan, Ysgol Treganna ac Ysgol Melin Gruffydd

Bu cystadlu brwd yn sir Caerdydd wrth i bedair ysgol **Ysgol Y Wern, Ysgol Mynydd Bychan, Ysgol Treganna ac Ysgol Melin Gruffydd** gymryd rhan yn rownd sirol Yr Ornest Lyfrau, cystadleuaeth sy’n cael ei threfnu gan Gyngor Llyfrau Cymru. Roedd yr ysgolion wedi dewis ystod eang o lyfrau ffuglen a ffeithiol. Roedd y beirniaid wrth eu boddau gyda safon y trafodaethau a chyflwyniad yr hysbysebion hyrwyddo. Roedd y trafodaethau’n aeddfed wrth esbonio cynnwys y llyfrau a’u defnydd o iaith yn gyfoethog a chywir. Roedd yr hysbysebion o safon uchel gyda pherfformiadau gwych a bywiog gan y disgyblion. Nododd y beirniaid gystadleuaeth agos. Cafodd Ysgol Melin Gruffydd y cyfle i gynrychioli’r sir yn rownd genedlaethol Yr Ornest Lyfrau yn Aberystwyth. Mae’n bleser cyhoeddi mai **Ysgol Melin Gruffydd** yw pencampwyr Yr Ornest Lyfrau 2023-24 Cymru, Cyngor Llyfrau Cymru. Llongyfarchiadau mawr i’r ysgol am gyrraedd y brig. Hoffai CCD ddiolch i’r ysgolion am gefnogi’r gystadleuaeth.



## Ysgol Gymraeg Glan Ceubal

Dros gyfnod byr o dri mis, mae **Ysgol Gymraeg Glan Ceubal** wedi sefydlu Maes Chwarae lach llewyrchus, wedi ei ariannu trwy grant gan 'Trees for Cities'. Mae'r prosiect hwn wedi'i groesawu, nid yn unig gan y staff a'r dysgwyr, ond hefyd y gymuned ehangach. Mewn dim ond tri mis, mae'r ysgol wedi gweld cynnydd rhyfeddol gyda'i menter Maes Chwarae lach. Mae dysgwyr yn cymryd rhan weithredol mewn dysgu yn yr awyr agored, gan gael profiad ymarferol o dyfu eu cynnyrch eu hunain. Mae'r ysgol wedi trefnu gwerthiant planhigion llwyddiannus ac wedi dosbarthu bocsys salad, gan feithrin ymdeimlad o fentergarwch a pherchnogaeth ymhlith y dysgwyr. Yn ogystal, mae'r clwb garddio bore Llun wedi dod yn ganolbwynt ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned, gan ddod â dysgwyr a rhieni at ei gilydd i weithio yn yr ardd.

O ganlyniad i frwdfrydedd y dysgwyr, cododd yr ysgol arian i brynu HotBin, sef compostiwr poeth, i gefnogi eu mentrau amgylcheddol. Mae'r compostiwr hwn yn caniatáu i'r ysgol brosesu swm cynyddol o wastraff, gan gynnwys papur a chardbord o'r ystafelloedd dosbarth, ffrwythau o amser byrbryd, gwastraff gardd, ac maent bellach yn dechrau compostio gwastraff sydd dros ben o amser cinio. Mae'r fenter hon nid yn unig yn lleihau gwastraff ond hefyd yn cynhyrchu compost llawn maetholion ar gyfer eu gardd.

Mae effeithiau cadarnhaol Gardd Ceubal, yr enw a ddewiswyd gan y dysgwyr ar gyfer eu gardd, yn ysbrydoledig. Mae myfyrwyr nid yn unig yn cymryd mwy o ran yn eu haddysg awyr agored ond hefyd yn datblygu dealltwriaeth ddyfnach o gynaliadwyedd a byw'n iach. Mae'r ardd yn ystafell ddosbarth fyw, le gall dysgwyr weld canlyniadau uniongyrchol eu hymdrechion a deall pwysigrwydd stiwardiaeth amgylcheddol. Ymhellach, mae'r fenter wedi cryfhau cymuned yr ysgol, gan feithrin ysbryd cydweithredol a darparu man gwyrdd bywiog ar gyfer ymlacio. Mae'r ardd wedi dod yn symbol o falchder i'r ysgol, gan arddangos eu hymrwymiad i addysg, cynladwyedd, a'r gymuned ehangach.



## Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd



Trwy gydol y flwyddyn academaidd mae myfyrwyr ôl-16 yn **Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd** wedi bod wrthi'n ymgysylltu â strategaethau VESPA i gefnogi effeithiolrwydd dysgwyr a datblygu annibyniaeth. Mae Arweinwyr Cynnydd Cyfnod Allweddol 5 wedi bod yn ymgorffori gweithgareddau a strategaethau adolygu VESPA i baratoi disgyblion ar gyfer eu camau nesaf mewn addysg, gyda chefnogaeth prosiect ymholiadau VESPA CCD.

Defnyddiodd arweinwyr cynnydd ddata Alps Connect i nodi tangyflawni mewn grwpiau penodol o ddysgwyr ac ymyriadau a gynlluniwyd yn strategol gan ddefnyddio gweithgareddau VESPA i gefnogi cadw a chodi cymhelliant myfyrwyr. Roedd y tîm tiwtor chweched dosbarth yn rhan annatod o addysgu arferion astudio effeithiol a strategaethau adolygu yn benodol ac yn croesawu'r cyfle i ymgymryd â hyfforddiant un i un i gefnogi dyheadau a chyrchfannau dysgwyr.

At ei gilydd, roedd llwyfan ar-lein Academi VESPA yn galluogi'r tîm chweched dosbarth i fonitro, nid yn unig eu grŵp ffocws yn fwy effeithiol ond hefyd y grŵp blwyddyn cyfan. Daeth tiwtoriaid dosbarth yn fwy cysylltiedig â monitro lles a chynnydd disgyblion a chyfathrebu unrhyw bryderon i'r Tîm Cynnydd yn rheolaidd. O ganlyniad, llwyddodd y tîm i edrych yn llawer cynharach ar gynnydd ac agwedd ystod o ddisgyblion oedd yn achos pryder. Mae VESPA wedi bod yn offeryn gwerthfawr ar gyfer ymgorffori diwylliant hyfforddi cadarnhaol ac i gefnogi disgyblion trwy eu hastudiaethau ôl-16.



Cyngor Bwrdeistref Siro  
**MERTHYR TUDFUL**  
**MERTHYR TYDFIL**  
County Borough Council

**YSGOLION**  
**MERTHYR TUDFUL**



## **Ysgol Gynradd Caedraw**

Mae Pennaeth **Ysgol Gynradd Caedraw** ym Merthyr Tudful yn gweithio'n galed gyda'i thîm o staff a disgyblion i ddatblygu a gwella cysylltiadau cryf â'r gymuned leol. Darllenwch isod i ddarganfod mwy am y gwaith cyffrous mae Mrs Williams a'i staff yn ei wneud gyda'u cymuned ysgol leol.

Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf fel pennaeth Caedraw, fy nghenhadaeth i yw sicrhau bod ein cymuned yn cymryd rhan weithredol ym magwraeth ein holl ddiszgyblion. Rydym wedi cyflawni hyn drwy weithio'n agos gyda'n tîm Ysgolion sy'n Canolbwyntio ar y Gymuned a sicrhau bod pob gweithgaredd yn gysylltiedig â'n Darpariaeth Cwricwlwm.

Fel rhan o'n cynnig cwricwlwm, rydym bob amser yn ceisio darparu cyfleoedd dysgu dillys, go iawn i'n disgyblion. Mae'r dull hwn yn sicrhau y gall disgyblion gymhwyso eu sgiliau mewn cyd-destunau ymarferol, gan feithrin profiadau dysgu effeithiol ac atyniadol.

Mae Ysgol Gynradd Caedraw yng nghanol tref Merthyr Tudful, lle nad oes fawr ddim lle gwyrdd. Er mwyn sicrhau y gall disgyblion gymryd rhan mewn dysgu drwy "dyfu," gwnaethom gais am grant Cadw Cymru'n Daclus. Roedd y grant hwn yn caniatáu i ni adeiladu gwelyau wedi'u codi a thŷ gwydr. Yn ogystal, gwnaethom gais am randir Awdurdod Lleol ar gyrion Merthyr Tudful. Mae'r mentrau hyn wedi galluogi ein disgyblion i dyfu ffrwythau a llysiau, gan wella eu profiad dysgu. Mae'r cynnyrch a dyfir wedi galluogi disgyblion i gymryd rhan mewn gweithgareddau coginio, darparu bwyd i'r gymuned, a mynd i'r afael â'r agenda tlodi. Mae gennym lety henoed cysgodol ger yr ysgol, lle mae'r preswylwyr wedi croesawu'r cynnyrch cartref, ffres o'r rhandir.

Mae cyfleoedd sydd wedi codi i wella safonau ar draws yr ysgol drwy'r gweithgareddau hyn wedi

cynnwys gwell sgiliau mathemategol, gwella lles, ac ysgrifennu at ddiben. Mae'r holl gyfleoedd wedi'u cynllunio gyda'r cwestiwn arweiniol, "Pa ddysgu allwn ni ei gael o hyn?" Er enghraifft, mae disgyblion yn defnyddio prennau mesur i fesur y pellter wrth blannu hadau, gan wella eu sgiliau mathemateg. Maent hefyd yn gwella eu safonau darllen a deall trwy ddilyn ryseitiau. O ganlyniad i'r gwaith a wnaed yn y maes hwn, yr ysgol oedd un o'r rhai cyntaf yng Nghymru i ennill gwobr arddwriaethol lefel 5.



Dyma un yn unig o'r nifer o brosiectau Cymunedol rydyn ni wedi'u defnyddio i symud disgyblion ymlaen a gwella eu dysgu, mae rhai enghreifftiau eraill yn cynnwys:-

Meddiannu'r amgueddfa: Meddiannodd disgyblion CC3 Amgueddfa Castell Cyfarthfa yn llythrennol. Fe wnaethon nhw greu arteffactau, daethant yn dywyswyr taith, gwerthu tocynnau, a hysbysu'r gymuned ehangach am eu dysgu trwy fod yn berchen ar yr amgueddfa am ddiwrnod. Mae hyn wedi dangos gwir ddsygu'r disgyblion.



Gwrth y Nadolig: Oherwydd bod Caedraw yn cael ei gysgodi gan fflatiau uchel, mynegodd disgyblion ddiddordeb mewn cael sioe oleuadau Nadolig. Gan weithio ochr yn ochr â'r tîm Ysgolion sy'n Canolbwyntio ar y Gymuned, gwnaeth disgyblion bosteri, gwahodd masnachwyr, a defnyddio eu sgiliau entrepreneuriaid i greu eu cynnyrch eu hunain. Gwahoddwyd preswylwyr, busnesau a rhieni i'r sioe lle gwerthodd disgyblion y "nwyddau a'r arteffactau" yr oeddent wedi'u gwneud. Roedd hwn wir yn ddigwyddiad i'w gofio.

Dyma rai o'r cyfleoedd dysgu dilys sydd wedi gwneud yr ysgol yn rhan o'r gymuned. Rydym yn gobeithio cael gwobr efydd ac efallai gwobr Arian Calon y Gymuned yn nhymor yr hydref.

## Ysgol Rhyd y Grug

Llongyfarchiadau mawr i **Ysgol Rhyd y Grug** am ei llwyddiant sirol yng nghystadleuaeth Yr Ornest Lyfrau. Mae'r gystadleuaeth genedlaethol hon yn cael ei threfnu'n flynyddol gan Cyngor Llyfrau Cymru. Roedd tîm brwdfrydig o Flynyddoedd 3 a 4 yn trafod y llyfr ffeithiol, Enwogion o Fri: Wallace (hanes y fforiwr a'r biolegydd o Gymru). Cafodd y beirniaid eu plesio'n fawr wrth i'r tîm fynegi barn am gynnwys y llyfr a thrafod ffeithiau pwysig a chyfeirio at brofiadau personol. Nodwedd arall ar y gystadleuaeth oedd hyrwyddo llyfr ac ennyn diddordeb eraill i'w ddarllen. Cynhyrchwyd hysbyseb difyr, llawn gwybodaeth gan grŵp o ddisgyblion i hybu'r llyfr Mira a'r Trip Ysgol. Roedd yr hysbyseb yn llawn hiwmor ac actorion talentog. Llwyddodd yr hysbyseb i ennyn diddordeb y beirniaid o'r cychwyn. Mae'r tîm wedi derbyn gwahoddiad gan Cyngor Llyfrau Cymru i fynychu digwyddiad rhithwir gyda'r awdur Casia Wiliam. Hoffai CCD ddiolch i'r ysgol am gefnogi'r gystadleuaeth.

## Ysgol Gynradd Goetre

Er mwyn gwella hunanwerthuso o fewn yr ysgol, mireiniodd y pennaeth gylch blynyddol o weithgareddau monitro a gwerthuso a datblygu system fwy cadarn sy'n cynnwys yr holl randdeiliaid. Mae'r dull systematig, ysgol gyfan hwn yn helpu arweinwyr, staff a llywodraethwyr i werthuso gwaith yr ysgol a nodi cryfderau a meysydd i'w gwella cyfredol. Un nodwedd benodol yw'r defnydd o adolygiadau mewnol tri diwrnod lle mae llywodraethwyr, staff consortia a gweithwyr proffesiynol o ysgolion lleol eraill yn ymuno ag uwch arweinwyr a staff i adolygu meysydd gwella allweddol a nodwyd gan yr ysgol. Mae'r digwyddiadau hyn wedi gwella gallu'r ysgol i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella yn llawer mwy effeithiol. Maent hefyd wedi galluogi staff a llywodraethwyr i ddod yn fwy medrus wrth fonitro safonau ac adrodd yn feirniadol ar gynnydd. Un o nodweddion nodedig yr adolygiad diweddaraf oedd cynnwys arweinwyr rhifedd o ysgolion lleol. Fe wnaeth eu sylwadau cadarnhaol wella hyder staff yn ogystal â darparu awgrymiadau defnyddiol ar gyfer gwella ymhellach. Yn ogystal â hyn, mae pob athro yn parhau i fod yn rhan o arsylwi arferion ei gilydd trwy arsylwi 'Cwad' buddiol. Mae'r sesiynau hyn yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan staff ac maent yn effeithiol iawn. Mae'r sesiynau'n galluogi athrawon i ddadansoddi gwaith pobl eraill, tynnu sylw at gryfderau ac awgrymu meysydd i'w gwella. Yn ogystal, mae'r sesiynau hyn yn cefnogi athrawon i gymryd rhan mewn deialog broffesiynol ddefnyddiol am addysgu a chynnydd disgyblion. O ganlyniad i'r gweithgareddau hyn, mae'r rhan fwyaf o athrawon yn deall yn well, eu bod yn atebol am gynnydd disgyblion sydd yn eu gofal a bod ganddynt ddealltwriaeth gynyddol o'u cryfderau a'r hyn y mae angen iddynt ei wella. Cafodd y ddau weithgaredd ganmoliaeth gan arolygwyr Estyn yn ystod ymweliad diweddar.



RHONDDA CYNON TAF

YSGOLION  
RHONDDA CYNON  
TAF

## Rhaglen Arweinwyr Digidol Disgyblion

Mae ysgolion o bob rhan o Rhondda Cynon Taf wedi bod yn cymryd rhan yn y rhaglen Arweinwyr Digidol Disgyblion. Nodau'r rhaglen yw hyrwyddo datblygiad arweinyddiaeth ddigidol disgyblion effeithiol a rhannu arfer da trwy gydweithio'n bwrpasol rhwng ysgolion.

Yn ystod y rhaglen, herir dysgwyr i gyflawni cerrig milltir tymhorol i wella arweinyddiaeth ddigidol a rhannu cynnydd yn ystod cyfarfodydd rhwydwaith rhithwir tymhorol. Mae ymarferwyr yn cael eu cefnogi ac yn cael cyfleoedd i gydweithio drwy gyfarfodydd tymhorol ychwanegol. Mae deunaw o ysgolion RhCT yn cymryd rhan yn y rhaglen, a ddatblygwyd gan James Protheroe, Arweinydd RhCT ar gyfer Dysgu Digidol a TGCh mewn ysgolion fel rhan o Strategaeth Ddigidol RhCT ar gyfer Ysgolion. Yn ystod tymor yr haf, bydd dysgwyr yn cael cyfle i gydweithio ag arweinwyr digidol o ysgolion eraill mewn cyfarfodydd wyneb yn wyneb. Bydd arfer da yn cael ei rannu gydag ysgolion ar draws RhCT yn ystod digwyddiad dathlu yn nhyrnor yr haf, lle bydd dysgwyr yn derbyn gwobr am gyflawni cerrig milltir y rhaglen.

Dyma'r ysgolion sy'n cymryd rhan yn y rhaglen:

- **Craig Yr Hesg Primary**
- **Ton Pentre Junior School**
- **Trerobart Primary School**
- **Tref y Rhyg primary school**
- **Brynnau Primary School**
- **Treorchy Primary School**
- **Williamstown Primary School**
- **Llantrisant Primary School**
- **Darran Park Primary School**
- **Ss Gabriel and Raphael Primary School**
- **Porth Community School**
- **Cilfynydd Primary**

- **Cwmbach CIW Primary School**
- **Mountain Ash Comprehensive School**
- **Trehopcyn Primary School**
- **Glenboi Primary School**

## Prosiect Clwstwr Cynnydd yn y DCF

Mae ysgolion yn RhCT yn cymryd rhan mewn cynllun peilot i rannu arfer da a datblygu dull blaengar o ddatblygu'r DCF. Mae hyn yn rhan o amcan ehangach i ddatblygu dysgu yn yr ystafell ddosbarth ddigidol fel yr amlygwyd yn Strategaeth Ddigidol RhCT ar gyfer Ysgolion.

O fewn clystyrau, mae ymarferwyr o Gamau Cynnydd 1-5 wedi bod yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau o fewn a rhwng pob cam cynnydd. Fel rhan o'r cydweithrediad, datblygwyd mapiau cynnydd i gefnogi ymarferwyr i ddatblygu dull cyson o ddatblygu'r DCF ar draws pob clwstwr. Yn ogystal â datblygu sgiliau, bydd y mapiau yn cynnwys gweithgareddau ac adnoddau awgrymedig i gefnogi'r DCF.

Yn ystod cam nesaf y prosiect, bydd gweithgor yn datblygu'r mapiau ymhellach cyn iddynt gael eu gwneud yn hygyrch i bob ysgol ledled RhCT.

Diolch yn fawr iawn i'r clystyrau sydd wedi cymryd rhan yng ngham cyntaf y prosiect:

- **Aberdare Cluster of Schools**
- **Ferndale Community School Cluster**
- **Mountain Ash Comprehensive School Cluster**

## Digwyddiad Arddangos RhCT

Cynhaliwyd Digwyddiad Arddangos RhCT yn **Ysgol Gymunedol Tonyrefail** ddydd Llun 24 Mehefin 2024, a drefnwyd gan James Protheroe, yr Arweinydd Strategol ar gyfer Addysg Ddigidol yn RhCT.

Gwahoddwyd partneriaid dysgu digidol, arweinwyr digidol ac arweinwyr digidol disgyblion o ysgolion yn y fwrdeistref i fynychu. Dechreuodd y digwyddiad gyda diweddariadau gan Brifysgol De Cymru, Hwb a Technocamps. Gwahoddwyd ymarferwyr i gymryd rhan mewn gweithdai yn tynnu sylw at sut yr oedd ysgolion yn archwilio defnyddio offer digidol i wella addysgu a dysgu, roedd hyn yn rhoi cyfle i ddeialog a thrafodaethau proffesiynol gael eu cynnal.

Yn ystod y bore, derbyniodd arweinwyr digidol disgyblion wobrau am eu rolau a chymryd rhan mewn sesiwn holi ac ateb, lle rhoddodd Tîm Dysgu Digidol Consortiwm Canolbarth y De a Phartneriaid Dysgu Digidol eraill amlinelliaid byr i'r plant o'u rolau. Yna gofynnodd y plant gwestiynau i'r panel. Roedd yn fore hynod addysgiadol ac roedd yn dda dathlu rôl pob arweinydd digidol yn y fwrdeistref.

## Ysgol Llanhari

Félicitations i Lili a Lowri dalentog o **Ysgol Llanhari**, enillwyr pedwaredd cystadleuaeth gyfieithu Anthea Bell o'r Ffrangeg i'r Gymraeg lefel 1 a 2. Mae Gwobr Anthea Bell ar gyfer Cyfieithwyr Ifainc yn gystadleuaeth cyfieithu creadigol i ddisgyblion 11-18 oed, a gynhelir gan y Gyfnewidfa Gyfieithu yng Ngholeg y Frenhines, Prifysgol Rhydychen. Mae'r gystadleuaeth yn rhedeg o bum iaith – Ffrangeg, Almaeneg, Eidaleg, Mandarin, Sbaeneg – i'r Saesneg ac o'r Ffrangeg i'r Gymraeg. Am gyflawniad enfawr i'r disgyblion Blwyddyn 7 a Blwyddyn 8 talentog hyn, gan ystyried bod dros 16,000 o ddisgyblion wedi cystadlu yn y gystadleuaeth eleni. Longyfarchiadau!



## Ysgol Gynradd Ynysboeth

Au Revoir Cymru, Bonjour Paris! Merci i staff **Ysgol Gynradd Ynysboeth** am drefnu arddangosfa lwyddiannus iawn "Tu hwnt i'n Ffiniau" i ddathlu lansiad Ffrangeg fel iaith ryngwladol yr ysgol. Roedd y plant wrth eu bodd yn arddangos eu gwaith o'r tymor hwn, sydd wedi cynnwys, ymhlith llawer o weithgareddau eraill, rhedeg Caffi Ffrengig yn y dderbynfa, creu brasluniau o'r tirnodau yn Ffrainc, blasu bwyd Ffrengig traddodiadol, cymharu Canllaw Eatwell, teithio'n rhithiol i Ffrainc (stampiwyd eu pasbortau!) ac, wrth gwrs, dysgu geiriau ac ymadroddion Ffrangeg bob dydd. Mae'r adborth gan rieni wedi bod yn hynod gadarnhaol. Doedden nhw ddim yn gallu credu bod y plant wedi datblygu sgiliau siarad Ffrangeg mor gyflym! Mae eu sgiliau iaith sydd newydd eu caffael, ynghyd â'u cyfranogiad diweddar yn yr hyfforddiant Uwcharwyr Iaith ym Mhrifysgol Caerdydd, yn golygu bod disgyblion Ynysboeth yn barod i fod yn llysgenhadon iaith amlieithog yn eu cymuned. Bravo!



## Ysgol Penderyn

Llongyfarchiadau mawr i **Ysgol Penderyn** am ei llwyddiant sirol yng nghystadleuaeth Yr Ornest Lyfrau. Roedd tîm brwdfrydig o Flynyddoedd 5 a 6 yn trafod y llyfr ffeithiol, Enwogion o Fri: Wallace (hanes y fforiwr a'r biolegydd o Gymru). Cafodd y beirniaid eu plesio'n fawr wrth wrando ar eu sgwrs naturiol ac roedd mwynhad y plant yn amlwg. Cafodd y beirniaid eu tywys i beiriant amser wrth wyllo'r hysbyseb i hyrwyddo'r llyfr Cymry o Fri. Llwyddodd y disgyblion i gyflwyno nifer o enwogion Cymru trwy gynnwys ffeithiau di-ri, gwahanol effeithiau, cerddoriaeth a hiwmor! Hoffai CCD ddiolch i'r ysgol am gefnogi'r gystadleuaeth.



## Cyngerdd Ieithoedd Rhyngwladol Clwstwr Penarth yn Stanwell

Glückwunsch a mille fois merci i Frau Jones yn **Ysgol Stanwell** am gynnal y cyngerdd clwstwr ieithoedd rhyngwladol cyntaf erioed yn y rhanbarth ddydd Gwener 28 Mehefin 2024.

Lluniwyd y digwyddiad fel cydweithrediad rhwng CCD ac Ysgol Stanwell i godi proffil ieithoedd ac arddangos yr ymdrechion a wnaed gan bob ysgol gynradd i wreiddio profiadau dysgu iaith ystyrlon yn eu cwricwla.

Cafodd y cyngerdd ei gychwyn gan Frau Jones yn dysgu'r fersiwn Almaeneg o Pen, Ysgwyddau, Coesau a Traed i'r disgyblion ac fe'i dilynwyd gan berfformiadau gwych yr ysgolion:

- **Victoria Primary** - Alouette, Gentile Alouette yn Ffrangeg
- **Sully Primary** – Tango'r Tengo yn Sbaeneg, Cymraeg a Saesneg
- **Fairfield Primary** – Cuando un amigo baila yn Sbaeneg
- Partner school in Germany – Wenn du fröhlich bist yn Almaeneg
- **Evenlode Primary** – L'arc en ciel yn Ffrangeg
- **Cogan Primary** – J'aime les fruits yn Ffrangeg
- **Stanwell School** - Das Fliegerlied yn Almaeneg

Rhwng perfformiadau, ysgogodd Marina Sáez o CCD y gynulleidfa i longyfarch pob act gyda chàn "Bravo" siriol yn Eidaleg. Roedd yna gwisiau geirfa amlieithog byr hefyd, ac, ar y diwedd, ychydig eiriau emosynol gan Mr Mansfield, pennaeth yr ysgol, a gafodd ei effeithio'n fawr gan y perfformiadau ac a roddodd araith angerddol am bwysigrwydd siarad ieithoedd i wneud cysylltiadau ag eraill yn ein cymuned fyd-eang.

Wedi'r digwyddiad, ysgrifennodd Frau Jones at bob ysgol i ddweud:

*"Roedd y disgyblion yn anhygoel! Roedd wir yn gymaint o ddathliad o ieithoedd, gyda'r fath frwdfrydedd, cyfranogiad ac egni, hyd yn oed coreograffi, propiau a gwisgoedd!"*

Gobeithiwn mai hwn yw'r cyntaf o nifer o gyngherddau clwstwr yn y rhanbarth.



## Ysgol Llanilltud Fawr



Fel rhan o'u cynllun datblygu ysgol, nododd **Ysgol Llanilltud Fawr** flaenoriaeth ôl-16 i wella canlyniadau chweched dosbarth a'u cadw wrth iddynt drosglwyddo o Flwyddyn 12 i Flwyddyn 13. Er mwyn mynd i'r afael â'r flaenoriaeth, cymerodd Cyfarwyddwr y Chweched Dosbarth ran ym mhrosiect Alps Connect CCD a chyflwynodd raglen fentora newydd i wneud y mwyaf o effaith y data a ddarperir gan Alps. Er mwyn sicrhau bod staff yn hyderus ac yn gyson yn eu defnydd o Alps Connect, darparwyd hyfforddiant a datblygwyd fideos cefnogi. Dadansoddodd Cyfarwyddwr y Chweched Dosbarth y data yn ofalus a datblygu templed adroddiad cyffredin. Rhannwyd yr adroddiadau mewn cyfarfodydd rheoli llinell ar gyfer trafodaethau allweddol ar dargedau disgyblion, a datblygwyd grwpiau mentora o'r cyfoeth o ddata oedd ar gael. Roedd ffocws cryf hefyd ar grwpiau penodol o ddysgwyr, gan gynnwys dysgwyr agored i niwed, a gwnaed cysylltiadau rhwng presenoldeb a chyrrhaeddiad.

Dywedodd Cyfarwyddwr y Chweched Dosbarth fod "y proffiliau cyrrhaeddiad yn Alps Connect wedi bod yn arf ardderchog i nodi'r pynciau/ disgyblion hynny lle mae cyrrhaeddiad yn disgyn drwy gydol y flwyddyn, o ganlyniad gall arweinwyr ysgolion fod yn fwy rhagweithiol, yn hytrach nag adweithiol wrth ddarparu cefnogaeth i ddisgyblion."

Roedd gallu olrhain cynnydd yn gywir yn Alps Connect wedi pob cwmp data yn caniatáu rhoi ymyriadau cynharach yn eu lle ar gyfer disgyblion sy'n tangyflawni ac i gynyddu'r nifer o ddisgyblion sy'n parhau o Flwyddyn 12 i Flwyddyn 13. Mae'r ysgol wedi gweld gwelliant o 71% y llynedd i gyrraedd oddeutu 90% eleni. O olrhain a mentora llwyddiannus, mae'r ysgol wedi gweld gwelliant amlwg yn y canlyniadau a ragwelir ac mae'r ysgol yn credu mai defnyddio Alps Connect fu'r sbardun y tu ôl i'r gwelliannau hyn. Bydd gwaith yn y dyfodol yn gweld Alps Connect a mentora yn cael eu gwreiddio ym Mlwyddyn 10 a Blwyddyn 11 i gefnogi dyheadau dysgwyr a sbarduno gwelliant yn yr ysgol.

## Ysgol Iolo Morganwg

Gweithiodd Ysgol Iolo Morganwg, fel rhan o'u paratodau ar gyfer 'Pride' y Bont-faen ym mis Mehefin 2023, ochr yn ochr ag Ian 'H' Watkins a'r gantores a'r cyfansoddwr Caryl Parry Jones i greu cân "Bydd yn ti dy hun". Cynhaliwyd gweithdy cyfansoddi llwyddiannus a chyfrannodd dros gant o ddisgyblion eirfa, rhigymau, rhythmau a syniadau ar themâu caredigrwydd a hunan-dderbyniad.

Yn ystod Eisteddfod yr Urdd ym Meifod ym mis Mai 2024, mabwysiadwyd y gân fel cân 'Pride' swyddogol yr Urdd. Cafodd "Bydd yn ti dy hun" ei ddysgu i eraill ac yna ei pherfformio ar lwyfan gan Ysgol Iolo Morganwg ac Ysgol Pontardawe o Gastell-nedd Port Talbot, lle bydd gŵyl yr Urdd yn cael ei chynnal y flwyddyn nesaf. Y nod yw addysgu'r gân i gynifer o ddisgyblion â phosibl o bob cwr o Gymru ac iddi gael ei pherfformio bob blwyddyn yn Eisteddfod yr Urdd. Gellir dod o hyd i ddolen i'r fideo o'r gân [yma](#). Llongyfarchiadau i Iolo Morganwg a diolch am eich cyfraniad creadigol a chadarnhaol.



## **Ysgol Sant Curig ac Ysgol Pen y Garth**

Bu Ysgol Sant Curig (blynyddoedd 5 a 6) ac Ysgol Pen y Garth (blynyddoedd 3 a 4) yn cystadlu yng nghystadleuaeth sirol Yr Ornest Lyfrau. Roedd y llyfr 'Cymry o Fri' yn ddewis poblogaidd, gyda'r ddwy ysgol yn dewis cyflwyno'r llyfr ar ffurf hysbyseb hyrwyddo. Llwyddodd y ddwy ysgol i ennyn diddordeb y beirniaid gyda chymeriadu cryf, actio penigamp a chynrychiadau gwych. Cafwyd trafodaeth aeddfed iawn gan Ysgol Sant Curig wrth drafod cynnwys ac arddull y llyfr 'Nadolig y Gath yn Sain Ffagan'. Roedd mwynhad disgyblion Ysgol Pen y Garth yn amlwg wrth drafod y llyfr 'Mira a'r Trip Ysgol'. Llwyddodd y disgyblion i uniaethu gyda'r prif gymeriad. Cafodd Ysgol Sant Curig y cyfle i gynrychioli'r sir yng nghystadleuaeth genedlaethol Yr Ornest Lyfrau yn Aberystwyth. Hoffai CCD ddiolch i'r ddwy ysgol am gefnogi'r gystadleuaeth.



Consortiwm Canolbarth y De  
Central South Consortium

Gwasanaeth Addysg ar y Cyd  
Joint Education Service